**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 7fed Tachwedd 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd B. Mellor (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, Mrs P. M. Jones, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, P. Prendergast, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. J. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 66. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Miss S. L. Roberts ac A. J. Rutherford.

## 67. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – HYDREF 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif TalebNo. | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 585 | Shire Leasing | 379.33 | Taliad Prydles Chwarterol ar gyfer System Ffôn Avaya |
| 584 | Credifon | 200.00 | Ychwanegu at y Peiriant Ffrancio |
| 586 | BT | 349.22 | Galwadau a rhentu |
| 587 | BT | 88.86 | Rhentu llinell |
| 588 | HSBC | 10.30 | Taliadau banc 17/08/18 i 16/09/18 |
| 594 | Cyngor Sir y Fflint | 4,214.51 | Cyfraniadau Pensiwn a Diffyg Medi 2018 |
| 595 | CthEM | 2,649.75 | Didyniadau cyflog Medi 2018 |
| 596 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,885.33 | Cyflogau Staff Hydref 2018 |
| 597 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Medi 2018 |
| 475 | Cyngor Sir Ddinbych | 707.00 | TANC Ffordd Wellington – Taliad 7 o 10 |
| 476 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser – Taliad 7 o 12 |
| 600 | Sage & Co | 93.00 | Ffioedd Gwasanaethau Cyflogres Gorffennaf i Fedi 2018 |
| 477 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Arbed Ynni 17/18 Taliad 3 o 4 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£19,933.96** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 68. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Esboniodd Clerc y Dref iddo awdurdodi'r taliadau wedi eu hamlygu mewn melyn fel taliadau brys.

| Rhif Taleb. | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 601 | RNLI | 2 Docyn am Noson Swper 19/10/18 | 20.00 |
| 602 | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Gorllewin Cymru | Cinio ar gyfer 3 cynrychiolydd ar gyfer cyfarfod 26/10/18 | 49.50 |
| 603 | Cyngor Sir Ddinbych | Costau Is-etholiad Bryn Hedydd Medi 2018 | 2,699.86 |
| 604 | Gwasg Helygain | 250 Cerdyn Cyfarch | 102.00 |
| 605 | Pottles Premier Plants | Planhigion Gaeaf | 1,392.60 |
| 606 | Lleng Brydeinig Frenhinol | 3 x Torch | 150.00 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£4,413.96** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 69. ARDAL ARFAETHEDIG GWELLA BUSNES, Y RHYL - PLEIDLAIS

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr Hysbysiad o Bleidlais a Threfniadau Pleidleisio (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a gofynnodd i'r aelodau ystyried pleidlais 'ie' neu 'na' naill ai'n cefnogi neu'n gwrthod y BID arfaethedig.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Tref yn pleidleisio o blaid y BID arfaethedig.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 70. AROLWG O'R RHEOLAU SEFYDLOG

Hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod o'r angen i arolygu a diweddaru Rheolau Sefydlog y Cyngor Tref i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y pwrpas a chyfeiriodd at y drafft (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'w ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *bod y ddogfen ddrafft yn cael ei chymeradwyo i'w hargymell i gyfarfod nesaf y Cyngor.*

## 71. EITEM GAN AELOD: STONDINAU GLAS THEATR Y PAFILIWN

Gofynnodd y Cynghorydd A. R. James am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref ofyn bod y stondinau hyll a godwyd i hyrwyddo sioeau yn y theatr yn cael eu symud ymaith.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais a bod Clerc y Dref yn cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.*

## 72. EITEM GAN AELOD: PROBLEMAU GORFODI TRAFFIG YN WARD DE-ORLLEWIN Y RHYL

Ar ran y Cynghorydd A. J. Rutherford, dosbarthodd y Cynghorydd P. Prendergast adroddiad y Cynghorydd Rutherford yn manylu'r problemau yng nghyffyrdd Vale Road/Pendyffryn Road/St. Margaret's Drive, Vale Road/Prince Edward Avenue/Victoria Road a chyffyrdd Vale Road/Marsh Road/Greenfield Place, oherwydd y traffig sy'n mynd i mewn ac allan o'r Rhyl.

Awgrymodd aelod arall y dylid ychwanegu cyffordd Donald Avenue/Rhuddlan Road gan ei bod wedi gweld nifer o 'ddamweiniau agos' yno.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau'r cefnogi cynnig y Cynghorydd Rutherford a gofyn i Glerc y Dref ofyn am arolwg brys o'r sefyllfa yn y cyffyrdd a grybwyllwyd uchod.*

## 73. EITEM GAN AELOD: CASGLIADAU GWASTRAFF YN Y DYFODOL

Gofynnodd y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine am gefnogaeth yr aelodau i wahodd cynrychiolwyr o Wasanaethau'r Amgylchedd Cyngor Sir Ddinbych i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol i esbonio pam nad yw trigolion y Rhyl wedi cael eu hymgynghori ar y trefniadau casglu biniau bob pedair wythnos sydd i ddod.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau'n cefnogi'r cais a gofyn i Glerc y Dref wahodd Gwasanaethau'r Amgylchedd i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.*

## 74. EITEM WYBODAETH I'R AELODAU: CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR

Dywedodd Clerc y Dref bod Ms Sian Lloyd-Price o Gyngor Sir Ddinbych wedi gofyn am gael dod i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol i hysbysu'r aelodau o newidiadau i ddod o fewn y Gwasanaethau Hamdden.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais a bod Clerc y Dref yn gwahodd Ms Lloyd-Price i gyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor.*

## 75. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 76. COFNODION IS-BWYLLGOR DIGWYDDIADAU DINESIG A CHYMDEITHASOL

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain Medi 2018 (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan gyfeirio Cynllun arfaethedig Gwobrau Dinesig y Maer yn ôl i'r pwyllgor i'w ystyried ymhellach.

***PENDERFYNWYD****:*

(i) *Bod pob derbyniwr posibl yn dod gerbron y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i’w ystyried a bod tystysgrif wedi ei fframio yn cael ei rhoi os ystyrir bod haeddiant.*

(ii) *Cymeradwywyd bod y ddau blentyn a gynigiwyd gan y Maer yn derbyn y wobr.*

**77. <u>CYNGHORYDD - PRYDERON</u>**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) ar ôl pryderon a godwyd gan aelod o’r Cyngor, i’w ystyried.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *bod panel o bedwar aelod traws-bleidiol (y Cynghorwyr B. Jones, K. R. Jones, Mrs W. M. Mullen-James ac A. J. Rutherford) yn cyfarfod gyda’r Aelod i wrando a phenderfynu ar gamau gweithredu.*

**78. <u>TERFYNU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:……………….……..

Dyddiad: ……………………..